# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-22-09)

**Dyddiad: 26 Tachwedd 2009**
**Amser: 9:00 – 11:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Lesley Griffiths, Wrecsam
Leanne Wood, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Gemma Bright, Dirprwy Glerc
Ryan Bishop, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Jane Davidson, y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Thai
Claire Bennett, Pennaeth yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dwr, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Gwyn Lewis, Pennaeth Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Helen Northmore, Pennaeth Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru
Frances Williamson, Cymdeithas Manwerthu Ynni
Tony Dicicco, Pennaeth Cysylltiadau Llywodraeth
Sian Callaghan, Centrica
David Topping, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Masnachol, E.ON
Valentine Mulholland, EDF Energy
Richard Westboy, Scottish and Southern

### Eitem 1: Cyflwyniad ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dywedodd fod Lorraine Barrett, Alun Davies, Rhodri Glyn Thomas a Karen Sinclair wedi ymddiheuro.

### Eitem 2: Sesiwn dystiolaeth ar dlodi tanwydd

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Davidson, Claire Bennet a Gwyn Lewis i'r Pwyllgor gan eu gwahodd i gyflwyno'u sylwadau agoriadol. Holodd y Pwyllgor y tystion.

### Eitem 3: Sesiwn dystiolaeth ar dlodi tanwydd

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Helen Northmore Lewis i'r Pwyllgor gan ei gwahodd i gyflwyno'u sylwadau agoriadol. Holodd y Pwyllgor y tyst.

3.2Cytunodd Helen Northmore i ddarparu gwybodaeth a yw'r gwaith o fonitro'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar gael fel gwybodaeth gyhoeddus.

3.3Cytunodd Helen Northmore i ddarparu adroddiad yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, 'Power in Numbers,' i'r Pwyllgor.

3.4Cytunodd Helen Northmore i ddarparu adroddiad yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, 'Location Location Location,' i'r Pwyllgor.

3.5 Cytunodd Helen Northmore i ddarparu rhagor o wybodaeth am ddulliau cyflenwi yn yr Alban, adroddiad cynnydd yr Alban ac ar gyfer pwy y contractiwyd darparu'r Pecyn Cymorth Ynni ym mhum Canolfan Gynghori Arbed Ynni yr Alban. A oes modd i chi ymhelaethu ychydig ar hyn – beth a ddarperir?

### Eitem 4: Sesiwn dystiolaeth ar dlodi tanwydd

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Frances Williamson, Richard Westboy, Sian Callaghan, David Topping, Valentine Mulholland a Tony Dicicco i'r Pwyllgor gan eu gwahodd i gyflwyno'u sylwadau agoriadol. Nododd y Cadeirydd nad oedd Gillian Noble yn gallu dod i'r cyfarfod. Holodd y Pwyllgor y tystion.

4.2 Cytunodd David Topping i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr arian a ddyrannwyd gan E.ON i fynd i'r afael â Thlodi Tanwydd yng Nghymru.

4.3 Nododd y Cadeirydd nad oedd Gillian Noble yn gallu dod i'r cyfarfod ac y byddai copi o'r cwestiynau'n cael ei anfon ati.

4.4 Cytunodd Frances Williamson i ddarparu rhagor o wybodaeth, ar ffurf yr adroddiad, "Missing Millions," am y budd-daliadau nad yw pobl yng Nghymru yn eu hawlio.

4.5 Cytunodd Sian Callaghan i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ddulliau gweithredu a chyflenwi Cam 4 o Becyn Cymorth Ynni yr Alban a sefydlwyd i gynorthwyo pobl i wneud y gorau o'u hincwm, i ostwng biliau tanwydd ac i wella eu harfer o ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon yn eu cartrefi.

4.6 Cytunodd Tony Dicicco i ddarparu'r ffigurau gwariant blynyddol am wariant cwmnïau ynni yng Nghymru. Ar beth?

4.7 Cytunodd Frances Williamson i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ddadansoddi bil ynni cyffredin yn cynnwys adroddiad blynyddol Ofgem i ddadansoddi biliau defnyddwyr.

4.8 Cytunodd yr holl dystion i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr effaith y rhagwelir y caiff y Mesur seneddol Ynni ar filiau cartrefi cyffredin o ran faint o'r taliadau gan y defnyddiwr a fydd yn mynd tuag at ynni adnewyddadwy.

4.9 Cytunodd yr holl dystion i ddarparu rhagor o wybodaeth am gynlluniau arbed ynni cymunedol yng Nghymru.

### Eitem 5: Trafod adroddiad drafft yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ddyfodol y diwydiant llaeth

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad drafft yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ddyfodol y diwydiant llaeth